



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 3 Medi 2024 am 6.00yh
yn rhithiol ac yn Ystafell Cyfarfod, Tŷ Cadwgan Castell Aberteifi
mewn lein a canllawiau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 3 September 2024 at 6.00pm
virtually and at a Meeting Room, Cadwgan House, Cardigan Castle
in line with guidelines of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021.

Presennol/Present—Y Cyngorwyr/Councillors: Olwen Davies (**yn y gadair** / in the chair), Catrin Miles, Teresa Harries, Richard Davies, Trystan Phillips, Elaine Evans, John Adams-Lewis, Philippa Noble (*gadawodd am 8.00yh* / left at 8.00pm), Nick Bolton, Stephen Greenhalgh (*gadawodd am 8.25yh* / left at 8.25pm), Siân Maehrlein, David Maehrlein, Llinos Haf-Jones (**Cyfieithydd/Translator**) a / and Eleri Maskell (**Clerc/Clerk**).

Cyflwyniad i ddiweddarau cyngorwyr ar ddatblygiadau o amgylch y llwybr mynediad i'r safle trin dŵr newydd yn Netpool.

Presentation to update councillors on developments around the access route to the new Water Treatment site at Netpool.

Rose Barter, For Safety's Sake.

Rhannodd Rose Barter ddogfennau yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol cyn y cyfarfod. Ar ran y grŵp "Er Mwyn Diogelwch" y ceisiadau yw bod y cyngor yn gwrthdroi eu cymeradwyaeth flaenorol i'r cais cynllunio i wrthwynebiad gan ofyn iddynt gael eu craffu "mewn pwyllgor" ar lefel cyngor sir. Hefyd, bod y cyngor tref yn gofyn am gytundeb prydles neu drosglwyddiad ased ar gyfer y tir yn Netpool. Mae'r cynlluniau ar gyfer y safle yn cynnwys plannu bylbiau, cynnal a chadw'r ardal werdd a gosod lle chwarae wedi ei ariannu gan grantiau. Penderfynodd y cyngorwyr greu gweithgor (Y Cyng Catrin Miles, Elaine Evans, Siân Maehrlein, David Maehrlein, Stephen Greenhalgh, Philippa Noble, Olwen Davies) i ymchwilio a thrafod y cynigion, gyda'r dasg o adrodd yn ôl i'r cyngor llawn yng nghyfarfod mis Hydref. Gofynnodd y cyngorwyr i unrhyw wybodaeth sydd yn cael ei rhannu gyda rhanddeiliaid fod yn glir o "Er Mwyn Diogelwch", ac nid ar ran y cyngor tref.

Rose Barter shared documents providing up to date information on the current situation prior to the meeting. On behalf of the group "For Safety's Sake" the requests are that the council reverse their previous approval of the planning application to an objection requesting that they are scrutinised "in committee" at county council level. Also, that the town council request a lease agreement or asset transfer of the land at Netpool. The plans for the site include planting bulbs, maintaining the green area and installing a play area funded by grants. The councillors resolved to create a working group (Cllrs Catrin Miles, Elaine Evans, Siân Maehrlein, David Maehrlein, Stephen Greenhalgh, Philippa Noble, Olwen Davies) to meet, research and discuss the proposals, with the task of reporting back to full council in the October meeting. Councillors requested that any information that the group shares with stakeholders should be clearly from For Safety's Sake, and not on behalf of the town council.

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

Croesawodd y Maer, y Cyng Olwen Davies, ei chyd-gynghorwyr i'r cyfarfod a diolchodd iddynt am eu presenoldeb. Cydymdeimlwyd â'r Clerc ar farwolaeth ei hewythr, Lloyd Williams Ffynnoncyff. Canmolwyd y clerc am draddodi y teyrnged yn yr angladd.

The Chair's Welcome and Personal Matters.

The Mayor, Cllr Olwen Davies, welcomed her fellow councillors to the meeting and thanked them for their presence. Sympathy was extended to the Clerk on the death of her uncle, Lloyd Williams Ffynnoncyff. The clerk was commended on the delivery of the eulogy in the funeral service.

2. I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb a cytuno a'r rhesymau a roddwyd.

Cyng Clive Davies – dal i fyny mewn cyfarfod cabinet; Richard Jones – mynychu dosbarth crochenwaith.

To receive apologies for absence

To receive, and consider for approval, apologies for absence and reasons given.

Cllr Clive Davies – held up in a cabinet meeting; Richard Jones – attending a pottery class.

3. I dderbyn datganiadau o ddiddordeb

Atgoffir aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant ar unrhyw eitem ar yr Agenda hon ar yr adeg hon neu ar unrhyw adeg yn ystod y cyfarfod yn unol â Chod Ymddygiad Cyngor Tref Aberteifi.

To receive declarations of interest

Members are reminded to declare any interest on any item on this Agenda at this point or at any point during the meeting in accordance with Cardigan Town Council's Code of Conduct.

<i>Y Cyng / Cllr Siân Maehrlein: Pob mater yn ymwneud â chynllunio / All matters relating to planning.</i>	<i>Mae'r cynghorwyr yn eistedd ar y pwyllgor cynllunio / The councillors sits on the planning committee.</i>
<i>Y Cyng / Cllr Olwen Davies: Eitem 8 b) Gohebiaeth rhif 154 / Item 8 b) Correspondence number 154: Problemau mynediad I eiddo, Gwyl Afon a Bwyd / Property access issues, River and Food Festival.</i>	<i>Mae'r cynghorydd yn ymddiriedolwr ar Fwrdd Menter Aberteifi/ Councillor is a trustee on the Menter Board Aberteifi.</i>
<i>Y Cyng / Cllr Catrin Miles: Eitem 8 b) Gohebiaeth rhif 168 / Item 8 b) Correspondence number 168: Cais I ddefnyddio'r Gobo gan Gwyl y Golau / Request to use the Gobo by the Festival of Light.</i>	<i>Mae'r cynghorydd yn ymddiriedolwr ar Fwrdd Theatr Byd Bychan/ Councillor is a trustee on the Small World Theatre Board.</i>

4. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

I gytuno a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth, 9 Gorffennaf 2024. Cynigiwyd y Cynghorwyr bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fawrth 9 Gorffennaf yn gywir.

Minutes of last meeting

To approve and sign minutes of the meeting held on Tuesday, 9 July 2024.

The Councillors proposed that the Tuesday, 9 July council meeting minutes be recorded as correct.

5. Adroddiad y Clerc

I dderbyn adroddiad gan Glerc y dref yn amlinellu'r camau a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf 2024.

- Mae Baneri'r Wyl Grefft wedi'u gosod ar chwe polyn lamp yng nghanol y dref gan ein Bachandech, a bydd y baneri "Lleisiau Eraill" yn cael eu disodli yr wythnos nesaf.
- Mae trefniadau ar y gweill i roi benthg y taflunydd Gobo i'r digwyddiad "Lleisiau Eraill", hefyd i'w godi, a gofyn i'r castell am ganiatâd.
- Mae mainc newydd gyda dwy planwyr ar bob pen wedi'i dosbarthu i parc chwarae Pentop gan Cadwch Gymru'n Daclus a oedd hefyd wedi rhoi y compost a planhigion i galluogi y plant lleol i llenwi nhw.
- Mae'r gwaith adnewyddu ar y Cyrtiau Tennis wedi dechrau ddoe. Rhoddwyd rhybudd i'r cyhoedd ar y ffens fis diwethaf, a dosbarthwyd llythrau i'r eiddo a busnesau cyfagos.
- Mae trefniadau wedi'u gwneud drwy'r gwasanaeth prawf i droseddwyr lefel isel wneud rhywfaint o waith cymunedol yn Aberteifi. Eu prosiect cyntaf fydd paentio'r ffens ar ochr Ffordd y Gogledd i gae Brenin Siôr V.
- Bydd dolenni misol i'r Agenda a'r Cofnodion yn cael eu gosod ar dudalen Facebook Cyngor Tref Aberteifi er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o weithrediad y cyngor.
- Mae caniatâd wedi'i roi i Gadeirydd Cyngor Cymuned Llandudoch wisgo ei fathodyn swydd ar gyfer urddo ficer newydd Eglwys y Santes Fair nos Fercher 18 Medi.
- Cynhelir cyfarfod nesaf PACT nos lau 5 Medi am 6.30yh.

Clerk's report

To receive a report from the Town Clerk outlining actions taken following the meeting held on 9 July 2024.

- The Craft Festival Banners have been erected on six lampposts in the centre of town by our Handyman, these will be replaced by the "Other Voices" banners next week.
- Arrangements are in hand to loan the Gobo projector to the "Other Voices" event, also to erect it and ask the castle for permission.
- A new bench with two planters on each end has been delivered to the Pentop play area from Keep Wales Tidy who also supplied the compost and plants for the local children to fill.
- The refurbishment work on the Tennis Courts has commenced. A notice to the public was placed on the fence last month, and letters distributed to the neighbouring properties and businesses.
- Arrangements have been made through the probation service, for low level offenders to carry out some community work in Cardigan. Their first project will be to paint the fence on the North Road side of King George V field.
- Monthly links to the Agenda and Minutes will be placed on the Cardigan Town Council Facebook page to increase public awareness to the functioning of the council.
- Permission has been extended to the Chairman of St Dogmaels Community Council to wear their badge of office to the inauguration of the new St Mary's Church vicar on Wednesday 18 September.
- The next PACT meeting will be held on Thursday 5 September at 6.30pm.

6. Eitemau i'w cymryd mewn sesiwn breifat

I benderfynu pa eitemau, os o gwbl, o'r Agenda y dylid eu cymryd gyda'r cyhoedd wedi'u gwahradd.

Ni nodwyd dim.

Items to be taken in private session

To determine which items, if any, of the Agenda should be taken with the public excluded.

None noted.

7. Cynllunio

Ystyried ceisiadau cynllunio a derbynnir a dadansoddi sylwadau priodol.

Planning

To consider planning applications received and resolve to submit appropriate comments.

<i>Rhif y Cais / App. No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
A240573	K Scourfield, Maesymeillion, Aberteifi, SA43 1QX.	<i>Ailfodelu byngalo dormer gan gynnwys estyniadau newydd / Remodelling of a dormer bungalow including new extensions.</i>	<i>Mae'r Cynghorwyr yn cefnogi'r cais hwn / Councillors support this application.</i>
A240583	Rhydian Harries, Canolfan Hamdden Teifi Leisure Centre, Aberteifi, SA43 1HG.	<i>Gosod ffensys newydd ac ardaloedd llawr caled i ddatblygiad Cae Chwarae Artiffisial presennol / Installation of replacement fencing and hardstanding areas to existing Artificial Grass Pitch development.</i>	<i>Mae'r Cynghorwyr yn cefnogi'r cais hwn / Councillors support this application.</i>
A240606	John Davies, Land adjacent to 20 Castle Street, Aberteifi, SA43 3AB	<i>Cynlluniau i godi dau dŷ newydd / Proposed erection of two new dwellings.</i>	<i>Mae mwyafrif y cynghorwyr yn cefnogi'r cais hwn ond yn dymuno nodi na ddylai fod unrhyw parcio i ymwelwyr nac ail gerbydau y cartrefi yn union y tu allan i'r eiddo ar unrhyw adeg oherwydd achosi problemau traffig ar y ffordd brysur hon / The majority of councillors support this application but wish to note that there should be no visitor parking or second household vehicle parking directly outside the properties at any time due to causing traffic problems on this busy road.</i>
A240613	One Stop Stores Ltd, Health Centre, Feidrfair, Aberteifi, SA43 1EB.	<i>Gosod offer o fewn yr iard gefn/ochr, gyda sgrinio ffens bren a newidiadau i ffensys a ffenestri cefn / The installation of plant within the rear/side yard area, with timber fence screening and alterations to fencing and rear windows.</i>	<i>Mae mwyafrif y cynghorwyr yn cefnogi'r cais hwn ond mae ganddynt bryderon ynglŷn â llygredd sŵn ac yn dymuno gofyn am welliant i'r elfen gwrthsain o amgylch y gwaith peiriannau / The majority of councillors support this application but do have concerns regarding noise pollution and wish to request an improvement to the sound proofing element surrounding the plant works.</i>
A240622	Kathryn Reid, 16 Quay Street, Aberteifi, SA43 1HU.	<i>Gwaith wedi'i gwblhau fel rhan o grant MTT 2005/2006 – Symud ac adnewyddu'r to llechi, tynnu</i>	<i>Mae'r Cynghorwyr yn cefnogi'r cais hwn / Councillors support this application.</i>

		<p><i>ac ailadeiladu simnai. Amnewid ac atgyweirio ffenestri sash, tynnu rendrad concrit, pwyntio calch a golchi calch, trawsnewid atig, tynnu wal fewnol, tynnu cerrig llechi, gosod teils llawr clai, gosod llawr derw, ystafell ymolchi a chegin newydd / Work completed as part of a 2005/2006 THI grant – Removal and renewal of slate roof, take down and rebuild chimney. Replacement and repair of box sash windows, removal of concrete render, lime pointing and lime washing, attic conversion, removal of an internal wall, removal of flagstones, fitting of clay floor tiles, fitting of oak floorboards, new bathroom and kitchen.</i></p>	
--	--	---	--

8. Eitemau i'w hystyried a'u dadansoddi / Items for consideration and resolution

a) Biliau i'w talu / Bills to be paid.

<i>Dyddiad / Date</i>	<i>Disgrifiad / Description</i>	<i>Côd / Code</i>	<i>Rhify Siec Cheque No.</i>	<i>Swm (TAW) / Sum (VAT)</i>
01/08/24	Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor / Rent of Council Office (Awst/August)</i> <i>Band Lydan (Awst) / Broadband (August)</i>	A9 A20	D/D BACS	£250.00(0.00) £20.00 (0.00)
07/08/24	<i>Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Gorffennaf/July)</i>	A5	BACS	£1470.29(0.00)
10/07/24	HMRC – <i>Taliad TWE ar gyfer 6 Gorffennaf 2024 - 5 Awst 2024 / PAYE payment for 6 July 2024 – 5 August 2024</i>	A16	BACS	£286.78(0.00)
10/07/24	<i>Bachan Deche / Handyperson (Gorffennaf/July)</i>	A19	BACS	£937.50(0.00)
15/07/24	<i>Gwasanaeth Cyfieithu / Translation Service</i>	A18	BACS	£78.75(0.00)
08/07/24	Sharp – Monthly minimum copies fee	A7	BACS	£30.00(5.00)
11/07/24 24/07/24	<i>Un Llais Cymru / One Voice Wales -Cyrsgiau hyfforddi / Training courses.</i>	A24	BACS	£80.00(0.00)
18/07/24	George, Davies & Evans – Interim invoice, Lease King George V Playing Fields and the Rugby Club Ltd	A22	BACS	£420.00(70.00)
17/07/24	RadioTrader - Earpieces	B8	BACS	£480.00(80.00)
08/07/24	Defib World – Electrode Pads	C13	BACS	£74.59(11.60)
31/07/24	Awen Teifi – Fflag Cymru anrheg i Brioude	B6	BACS	£11.99(0.00)
17/07/24	Factory Shop – Plastic box to store radios.	B8	BACS	£14.00(0.00)
01/09/24	Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor / Rent of Council Office (Medi/September)</i> <i>Band Lydan (Medi) / Broadband (September)</i>	A9 A20	D/D BACS	£250.00(0.00) £20.00 (0.00)
03/09/24	<i>Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Awst/August)</i>	A5	BACS	£1470.09(0.00)

03/09/24	HMRC – Taliad TWE ar gyfer 6 Awst 2024 - 5 Medi 2024 / PAYE payment for 6 August 2024 – 5 September 2024	A16	BACS	£286.98(0.00)
03/09/24	Bachan Deche / Handyperson (Awst/August)	A19	BACS	£1230.00(0.00)
09/08/24	Sharp – Monthly minimum copies fee	A7	BACS	£30.00(5.00)
05/08/24	Thomas Fattorini Ltd – Cyn-Faer Badges	B5	BACS	£2361.54(393.59)
07/08/24	PEAC Solutions – Lease of photocopier	A7	D/D	£121.20(20.20)
19/07/24	Telemat – Mwy o gof ar gyfer ebyst / Increased memory for email addresses.	A20	BACS	£225.00(37.50)
12/08/24	Un Llais Cymru / One Voice Wales -Cwrs hyfforddi / Training course.	A24	BACS	£40.00(0.00)

Cynigodd y Cynghorwyr bod y biliau a restrwyd yn cael eu talu.

The Councillors proposed that the listed bills be paid.

Derbyniadau/Receipts:

09/07/2024	Lloyds Bank: Llog / Interest	£73.62
10/06/2024	Royal Mail – Lamp post repair	£2,960.45
30/07/2024	CSC Praesept / CCC Precept	£30,007.33
09/08/2024	Lloyds Bank: Llog / Interest	£75.73

b) Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
115	Donna Smith – Clerc a Swyddog Priodol, Cyngor Tref Taunton / Clerk and Proper Officer, Taunton Town Council:: Theori v Arfer o fod yn Gynghorydd Lleol – astudiaeth ymchwil / Theory v Practice of being a Local Councillor – research study.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 10/07/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 10/07/2024.
116	Tracy Gilmartin – Un Llais Cymru / One Voice Wales: Sesiwn Cyswllt Cynghorau Cludiant Cymunedol / Community Transport Councils Connect Session.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 11/07/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 11/07/2024.
117	Rose Barter – Diweddariad ar sefyllfa mynediad safle Dŵr Cymru / Update on the Welsh Water site access situation.	<i>Trafodwyd ar ddechrau'r cyfarfod / Discussed at the start of the meeting.</i>
118	Rose Barter - Cyfeillion Parc Netpool / Friends of Netpool Park: Datblygiadau'r safle / Developments of the site.	<i>Trafodwyd ar ddechrau'r cyfarfod / Discussed at the start of the meeting.</i>
119	Y Cyng/Cllr Elaine Evans, Paul Williams: Llundiau yn dangos problem baw cwn yn Parc Fictoria / Pictures showing dog mess problem in Victoria Park.	<i>Mae'r Cynghorydd Evans wedi trefnu gosod arwyddion newydd ar ffens Gerddi Victoria yn atgoffa perchnogion i gasglu eu baw cŵn eu hunain. Penderfynwyd treialu hongian bagiau ar y ffens ger yr arwyddion at ddefnydd y cyhoedd / Cllr Evans has arranged for new sign posting to be placed on the fence of Victoria Gardens reminding owners to collect their own dog mess. It was resolved to trial hanging bag dispensers on the fence by the signs for public use.</i>
120	Keiron Hutchins – Cais am gymorth i ddod o hyd i leoliadau addas ar gyfer gwasanaeth cymorth ieuencid symudol / Request for assistance in finding suitable locations for mobile youth support service.	<i>Penderfynwyd awgrymu bod "Feelz on Wheelz" yn gofyn i'r Eglwys Gatholig oherwydd maint eu maes parcio a'u lleoliad canolog. Argymhellodd y cynghorwyr gysylltu â darparwyr gwasanaethau lleol yn Aberteifi i osgoi dyblygu / It was resolved to suggest that "Feelz on Wheelz" ask the Catholic Church due to the size of their car park and central location. The councillors recommended contacting local service providers in Cardigan to avoid duplication.</i>

121	Mathew Warnes – TECURA Health Care Group: <i>Cais am wybodaeth ynglŷn â swyddogion CSC</i> / Information request regarding CCC officers.	Anfonwyd atebion ymlaen gan gynghorwyr / Replies forwarded by councillors.
122	Dai Davies – <i>Sylwadau negyddol ynglŷn â chyflwr llwybrau beicio lleol</i> / Negative observations regarding the condition of local cycle paths.	<i>Mynegodd y Cynghorwyr eu cydymdeimlad gyda chyflwr ein llwybrau beicio lleol oherwydd toriadau Ceredigion, ond nid yw'r llwybrau yn disgyn o fewn ffiniau'r cyngor tref</i> / Cllrs expressed their sympathy with the condition of our local cycle paths due to Ceredigion cutbacks, but the paths do not fall within the boundaries of the town council.
123	Nia Jones, <i>Gwasanaethau Democraidd, CSC</i> / Democratic Services CCC: <i>Ymgynghoriad ar system bleidleisio yn Etholiadau Lleol Cyngor Sir Ceredigion</i> / Consultation of the voting system for Ceredigion County Council Local Authority Elections.	<i>Penderfynodd y cynghorwyr ymateb i'r ymgynghoriad yn unigol</i> / The councillors resolved to respond to the consultation on an individual basis.
124	Charlotte Fundalski – <i>Polisi Economaidd, Llwyodraeth Cymru</i> / Economic Policy, Welsh Government: <i>Ymchwil ar fanwerthwyr yn ein hardal</i> / Research on retailers in our area.	<i>Penderfynodd y cynghorwyr ymateb i'r ymgynghoriad yn unigol gan ofyn i glerc y dref roi'r wybodaeth ar dudalen Facebook y cyngor</i> / The councillors resolved to respond to the consultation on an individual basis and requested the town clerk placed the information on the council Facebook page.
125	Tim Richards – <i>Beirniadaeth yn ailraddio'r cyfyngiad 20mya ar Ffordd Gwbert o'r gylchfan fach i Heol Ferwig</i> / Criticism regarding the 20mph limit on Gwbert Road from the mini roundabout to Verwig Road.	<i>Mae'r ymgynghoriad i holi a all rai strydoedd ddychwelyd i 30mya wedi cau</i> / The consultation to request that certain streets revert to 30mph has closed.
126	Y Cyng/Cllr Elaine Evans, Vicky Thomas, Plant Dewi: <i>Ystafell y gellir ei chloï i storio dillad ac offer babanod</i> / Lockable room to store baby clothes and equipment.	<i>Mae'r cynghorwyr yn awgrymu y byddai Banc Bwyd New Life Church yn lleoliad addas i storio'r offer</i> / The councillors suggest the New Life Church Food Bank would be a suitable venue to store the equipment.
127	Richard James - George, Davies and Evans: <i>Newidiadau hwyr i'r brydles</i> / Late amendments to the lease.	<i>Teimla'r cynghorwyr y dylai pwyllgor y Clwb Rygbi fod wedi codi unrhyw faterion cyn derbyn yr ymollyngiad prydles. Ni wneir unrhyw newidiadau pellach a gofynnir i'r pwyllgor arwyddo'r brydles heb unrhyw newidiadau</i> / Councillors feel that the Rugby Club committee should have raised any issues before accepting the lease engrossment. There will be no further changes made and the committee will be requested to sign the lease with no amendments.
128	<i>Gardd Goedwig Gymunedol Naturewise Community Forest Garden: Yr Haf hwn</i> / This summer.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 19/07/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 19/07/2024.
129	Rose Barter – <i>Diweddariad ar sefyllfa mynediad safle Dŵr Cymru</i> / Update on the Welsh Water site access situation.	<i>Trafodwyd ar ddechrau'r cyfarfod</i> / Discussed at the start of the meeting.
130	Tracy Gilmartin – <i>Un Llais Cymru</i> / One Voice Wales: <i>Canllaw i adolygiad Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru 2026</i> / Guide to the 2026 Democracy and Boundary Commission Cymru review.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 19/07/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 19/07/2024.
131	Tracy Gilmartin – <i>Un Llais Cymru</i> / One Voice Wales: <i>Lansio'r Gymuned Ddefnyddwyr Digidol ar gyfer Cyngorau Cymuned a Thref</i> / Launch of the Digital User Community for Community and Town Councils.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 22/07/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 22/07/2024.
132	Courtney Miles – <i>Dwr Cymru</i> / Welsh Water: <i>Digwyddiad Allgymorth Cymunedol Dŵr Cymru yn Aberteifi</i> / Welsh Water Community Outreach event in Cardigan.	<i>Roedd gan dîm Cartref fan yn yr Ŵyl Afon a Bwyd</i> / The Cartref team had a van in the River and Food Festival.
133	Wendi Patience – <i>Un Llais Cymru</i> / One Voice Wales: <i>Sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir yn mis Gorffennaf, Awst a Medi</i> / Remote training sessions that are taking place in July, August and September.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 24/07/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 24/07/2024.

134	Rachel Carter – <i>Swyddog lleoedd lleol ar gyfer natur, Un Llais Cymru / Local Places for Nature Officer, One Voice Wales: Angen Adborth / Feedback needed.</i>	Mae'r Clerc wedi llenwi'r ffurflen ar-lein / The Clerk has completed the online form.
135	<i>Cyllid a Chaffael, Cyngor Sir Ceredigion / Finance and Procurement, Ceredigion County Council: Manylion Taliad / Remittance Advice.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 26/07/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 26/07/2024.
136	<i>CSC Adain Cau Ffyrdd: Digwyddiad Arbennig Cau Ffordd / CCC Road Closures Section, Temporary Road closure order: Ceredigion a Aberystwyth – rali Ceredigion rally.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 26/07/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 26/07/2024.
137	Rhiannon John – <i>Swyddog Datblygu Trefi Gwledig, CSC / Rural Towns Development Officer, CCC: Cyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur / Local Places for Nature Funding.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 31/07/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 31/07/2024.
138	Ben Lake AS/MP: <i>Edrych ymlaen l weithio gyda chi / Looking forward to working with you.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 31/07/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 31/07/2024.
139	Jake Rayson – <i>Cynorthwydd Bioamrywiaeth, Partneriaeth Natur Lleol Ceredigion, CSC / Biodiversity Assistant, Ceredigion Local Nature Partnership, CCC: Potensial bywyd gwyllt a garddio Ardal Chwarae Pentop / Pentop Play Area wildlife and gardening potential.</i>	<i>Mae cynghorwyr yn dymuno annog partneriaeth gref gyda Phartneriaeth Natur Leol Ceredigion ac yn bwriadu gofyn i Mr Rayson am gyfarfod wyneb yn wyneb i drafod prosiectau'r dyfodol yn Aberteifi / Councillors wish to encourage a strong partnership with the Ceredigion Local Nature Partnership and intend to ask Mr Rayson for a face to face meeting to discuss future projects in Cardigan.</i>
140	<i>Bwletin Awst Costau Byw Ceredigion / August Cost of Living Bulletin.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 02/08/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 02/08/2024.
141	<i>Bwletin Cynnal y Cardi Bulletin.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 02/08/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 02/08/2024.
142	Rhiannon John – <i>Swyddog Datblygu Trefi Gwledig, CSC / Rural Towns Development Officer, CCC: Grantiau Cymunedol CSC / Community Grants CCC.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 02/08/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 02/08/2024.
143	Alun Harries – <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Cofnodion Drafft, Pwyllgor Ardal Ceredigion / Draft minutes, Ceredigion Area Committee.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 06/08/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 06/08/2024.
144	Alun Harries – <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Bwrdd Gwasanaethau Lleol Ceredigion, diweddariad i Aelodau Pwyllgor Ardal Ceredigion / Ceredigion Local Services Board – update for Ceredigion Area Committee Members.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 06/08/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 06/08/2024.
145	<i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Bwletin Newyddion / News Bulletin.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 07/08/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 07/08/2024.
146	Tracy Gilmartin – <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Presenoldeb Aelodau – y Rheol 6 mis / Attendance by Members – the 6 month rule.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 12/08/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 12/08/2024.
147	Wendi Patience – <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir yn mis Awst a Medi / Remote training sessions that are taking place in August and September.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 12/08/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 12/08/2024.

148	Lowri Jenkins - <i>Cymunedau Eden Project Communities: Cyflwyniad I Weithredu Cymunedol yr Eden Project Cwrs ar lein / Introduction to Eden Project Community Action online course.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 13/08/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 13/08/2024.
149	<i>Cadw Cymru'n Daclus / Keep Wales Tidy: Gweminar am ddim, blodau gwyllt Cymru / Wildflowers of Wales free webinar.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 13/08/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 13/08/2024.
150	<i>Polisi a Pherfformiad, CSC / Policy and Performance CCC: Dewch i Siarad / Let's Talk Survey.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 13/08/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 13/08/2024.
151	<i>CSC Adain Cau Ffyrdd: Digwyddiad Arbennig Cau Ffordd / CCC Road Closures Section, Temporary Road closure order: U3422 Aberteifi ar 16/09/2024-20/09/2024 am 08.00 i 18.00 ar gyfer ail-wynebu / road resurfacing.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 13/08/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 13/08/2024.
152	<i>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board: Lansio ymgysylltiad "Fy Iechyd, Fy Newis" Gwasanaethau Gofal Sylfaenol a Chymunedol / Launching "My Health, My Choice" Primary Care and Community Services Engagement.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 15/08/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 15/08/2024.
153	Helen Powell – <i>Pennaeth Gwasanaethau Cefnogaeth / Head of Support Services, Tenovus: Sut rydym yn gallu helpu / How can we support you.</i>	<i>Penderfynodd cyngorwyr wahodd Ms Powell i roi cyflwyniad ar ba gefnogaeth y gallant ei chynnig yn lleol / Councillors resolved to invite Ms Powell to give a presentation on what support they can offer locally.</i>
154	Jane Roche – <i>Problemau mynediad i eiddo, Gŵyl Afon a Bwyd / Issues with property access, River and Food Festival.</i>	<i>Mae angen codi unrhyw faterion gyda Menter Aberteifi, sef trefnwyr yr ŵyl / Any issues need to be raised with Menter Aberteifi who are the festival organisers.</i>
155	Heidi Pawlin – <i>Uwch Swyddog Taclo Tipio, Cyfoeth Naturiol Cymru / Senior Fly-tipping Officer, Natural Resources Wales: Adnoddau am ddim i helpu i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon yn ein cymunedau / Free resources to help tackle fly-tipping in our communities.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 19/08/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 19/08/2024.
156	Geraint Roberts – <i>Uwch Swyddog Dtblygu / Senior Development Officer, BARCUD: Cae chwarae Maesglas / Maesglas Playing Field.</i>	<i>Aros am gytundeb les ar gyfer y cae / Waiting for a lease agreement for the field.</i>
157	Richard James, George Davies and Evans Solicitors: <i>Prydles Caeau Chwarae Brenin Siôr gyda Chlwb Rygbi Aberteifi Cyf / Lease of King George Playing Fields with Cardigan Rugby Club Ltd.</i>	<i>Gweler rhif 127 / See number 127.</i>
158	Tracy Gilmartin – <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Canllaw ar grymoedd a pholisiau sy'n ymwneud â Chynghorau Lleol / Guidance on powers and policies which relate to Local Councils.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 22/08/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 22/08/2024.
159	Tracy Gilmartin – <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Newyddion gan y Tîm Cymorth Argyfwng Costau Byw / News from the Cost of Living Crisis Support Team.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 22/08/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 22/08/2024.
160	<i>Hyfforddiant Ceredigion Training: Wythnos Addysg Oedolion / Adult Learners' Week.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 27/08/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 27/08/2024
161	Rose Barter – <i>Diweddariad ar sefyllfa Dŵr Cymru a Netpool / Update on the Welsh Water and Netpool.</i>	<i>Trafodwyd ar ddechrau'r cyfarfod / Discussed at the start of the meeting.</i>
162	Paul Williams – <i>Rheolwr Cyfleusterau Adeiladau, CSC / Buildings Facilities Manager, CCC: Opsiynau ar gyfer darparu toiledau cyhoeddus Aberteifi / Options for provision of Cardigan public toilets.</i>	<i>Penderfynodd y cyngorwyr drefnu cyfarfod o'r is-bwyllgor i drafod yr opsiynau / Councillors resolved to arrange a sub-committee meeting to discuss the options.</i>

163	<i>Datganiad I'r Wasg, CSC / Press Release, CCC: Gofyn barn ar gynllun amdiffyn yr arordir ar gyfer Aberystwyth / Views sought on Aberystwyth coastal defence scheme.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 28/08/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 28/08/2024
164	<i>Bwletin Awst Costau Byw Ceredigion / August Cost of Living Bulletin.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 30/08/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 30/08/2024
165	<i>Rose Barter – Diweddariad ar sefyllfa mynediad safle Dŵr Cymru / Update on the Welsh Water site access situation.</i>	<i>Trafodwyd ar ddechrau'r cyfarfod / Discussed at the start of the meeting.</i>
166	<i>Andrew Davies – Chwyn yng nghanol y dref / Weeds in the town centre.</i>	<i>Mae cyngorwyr yn cytuno, oherwydd toriadau CSC, fod gan ardaloedd o'r dref fwy o chwyn eleni. Ond mae yna grwpiau gwirfoddol yn gweithio'n galed i frwydro yn erbyn y broblem. Mae atebion tymor hir yn cael eu hymchwilio / Councillors agree that due to CCC cutbacks areas of the town have more weeds this year. But there are volunteer groups working hard to combat the problem. Long term solutions are being researched.</i>
167	<i>Tracy Gilmartin – Un Llais Cymru / One Voice Wales: Cyswllt cyngorau a Chynlluniau Costau Byw / Youth Engagement and Cost of Living Initiatives.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 02/09/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 02/09/2024
168	<i>Siobhan McGovern – Theatr Byd Bychan, Gwyl y Golau / Small World Theatre, Festival of Light: Cais i ddefnyddio'r Gobo 30 Tachwedd i 20 Rhagfyr / Request to use the Gobo 30 November to 20 December.</i>	<i>Penderfynodd cyngorwyr ofyn i Theatr Byd Bychan rentu Gobo a allai arddangos delwedd ochr yn ochr â'r "Nadolig Llawn" a sydd lan yr adeg honno o'r flwyddyn / Councillors resolved to request that the Small World Theatre rent a Gobo that could display an image alongside the "Nadolig Llawn" projected at that time of year.</i>
169	<i>Melanie Walters – Cydlynnydd Datblygu Gofalwyr a'r Gymuned / Carers and Community Development, Porth Cymorth Cynnar: Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hyn a Cheredigion Oed Gyfeillgar / International Older Persons Day and Age Friendly Ceredigion.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 02/09/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 02/09/2024
16	<i>Clwb Pêl-Droed Iau Llandudoch / St Dogmaels Junior Football Club: Cais am gymorth ariannol / Application for financial support.</i>	<i>I'w trafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Medi.</i> To be discussed at the September Grants Sub-committee.

c) Gwaith atgyweirio ac yswiriant ar gyfer y gadwyn faerol.

Mae'r darnau o'r gadwyn sydd angen eu hatgyweirio gyda'r gemydd . Unwaith y bydd y gwaith wedi'i gwblhau bydd y gadwyn gyfan yn cael ei phwyso at ddibenion prisio.

Repair work and insurance for Mayoral chain.

The pieces of the chain that need repairing are with the jewellers. Once the work is complete the whole chain will be weighed for valuation purposes.

d) Ffordd fynediad gefn ar gyfer Heol y Gogledd.

Mae Cyng Elaine Evans wedi gofyn i CSC a oes modd rhoi wyneb newydd ar y ffordd ac mae'n aros am ateb.

Rear access road for North Road.

Cllr Elaine Evans has asked CCC if the road can be resurfaced and is waiting for a reply.

e) Cadarnhau lleoliadau ar gyfer polion fflag newydd.

Mae'r Cyngorydd David Maehrlein wedi cael sawl dyfynbris ac mae ganddo ddimensiwn y polion newydd. Mae'r Cyng Nick Bolton wedi anfon 4 lleoliad i CSC - un y tu allan i Neuadd y Dref ger y canon, dau yn y naill gornel Gerddi Victoria i fframio'r senotaff ac un ar Gei'r Tywysog Siarl. Mae rhestr o'r baneri i'w codi a dimensiynau'r polion hefyd wedi'u rhannu ar

gyfer caniatâd cynllunio.

Confirm locations for new flagpoles.

Cllr David Maehrlein has obtained several quotes and has the dimension of the new poles. Cllr Nick Bolton has forwarded 4 locations to CCC – one outside the Guildhall by the cannon, two in either corner of Victoria Gardens to frame the Cenotaph and one on Prince Charles Quay. A list of the flags to be raised and the dimensions of the poles have also been shared for planning permission.

f) Postyn lamp wedi torri, Cnwc y Dintir.

Mae'r taliad yswiriant i drwsio'r post wedi ei dderbyn, dylai'r gwaith fod wedi ei gwblhau erbyn diwedd yr wythnos.

Broken lamppost, Cnwc y Dintir.

The insurance payment to repair the post has been received, the work should be complete by the end of the week.

g) Swydd wag ar gyfer Brysgyllwr.

Heb ganfod un arall hyd yma.

Vacancy for a Mace Bearer.

No replacement found to date.

h) Tir tu ôl Rhos y dre.

Mae angen cynnal cyfarfod safle gyda'r holl randdeiliaid, mae'r prosiect hwn yn symud ymlaen.

Land behind Rhos y Dre.

Site meeting with all stakeholders needs to be held, this project is ongoing.

i) Goleuadau a coeden Nadolig.

Gofynnodd y cynghorwyr i'r arwydd "Nadolig Llawen" newydd fod yn fwy cydnaws â'r "Merry Christmas" presennol gan y byddant yn cael eu harddangos yn yr un lleoliad. Clerc i ddod o hyd i syniadau coeden Nadolig wahanol.

Christmas lights and tree.

Councillors requested the new bespoke "Nadolig Llawen" sign to be more in keeping with the current "Merry Christmas" as they will be displayed at the same location. Clerk to source alternative Christmas tree ideas.

j) Toiledau Lôn Siawnseri.

Mae cynghorwyr wedi penderfynu derbyn dyfynbris o £44,000 i gwblhau'r gwaith angenrheidiol i ddiweddar'u'r toiledau. Mae cais am grant o £30,000 wedi'i wneud sy'n gofyn am arian cyfatebol o tua £11,000.

Chancery Lane Toilets.

Councillors have resolved to accept a quote for £44,000 to complete the necessary work to update the toilets. A grant application has been made for £30,000 requiring match funding for approximately £11,000.

9. Ceisiadau am gymorth ariannol / Applications for financial aid:

<i>Enw'r Sefydliad/Clwb/Elusen</i> Name of Organisation/Club/Charity	<i>Derbyniwyd Cyfrifon</i> Accounts received	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25
<i>Clwb Pêl Droed Iau Llandudoch / St Dogmaels Junior Football Club.</i>	✓	£400	£770	£964	£400
<i>Castell Aberteifi / Cardigan Castle</i>	✓	£2000	£2000	£0	£1000

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn caniatáu i gynghorau cymuned cymwys wneud “unrhyw beth y gall unigolyn yn gyffredinol ei wneud”. Mae’n bŵer dewis cyntaf a bydd Cyngor Tref Aberteifi yn arfer y pŵer cyffredinol hwn wrth awdurdodi rhoddion grant yn y gymuned ar ôl bodloni’r tri amod a bennir yn Neddf 2021, Adran 30(2)-(4).

The Local Government and Elections (Wales) Act 2021 allows eligible community councils to do “anything that an individual generally can do”. It is a power of first resort and Cardigan Town Council will exercise this general power when authorising grant funding in the community having met the three conditions specified in the 2021 Act, Section 30 (2)-(4).

10. Eitemau er gwybodaeth yn unig / Items for information only

a) Dyddiadur y Maer.

- Dydd Sadwrn 3 Awst: Sioe Amaethyddol Aberteifi
- Dydd Mawrth 6 Awst: Agoriad swyddogol Neuadd Aberporth
- 5-10 Awst: Wythnos y Carnifal – Cwis, Helfa Drysor Ceir a Diwrnod y Carnifal
- Dydd Sadwrn 17 Awst: Agoriad swyddogol Caffi newydd Gorsaf Finch
- Dydd Sadwrn 17 Awst: Gŵyl Afon a Bwyd Aberteifi
- Nos Fercher 28 Awst: Hyrwyddo Rali Ceredigion ar Prynawn Da ar S4C
- Cefnogi preswlydd lleol gyda digwyddiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol

Mayors’ Diary.

- Saturday 3 August: Cardigan Agricultural Show
- Tuesday 6 August: Aberporth Hall official opening
- 5-10 August: Carnival week – Quiz, Car Treasure Hunt and Carnival Day
- Saturday 17 August: Official opening of the new Finch Station Cafe
- Saturday 17 August: Cardigan River and Food Festival
- Wednesday 28 August: Promoting Rali Ceredigion on Prynawn Da on S4C
- Supported a local resident with an incident of anti-social behaviour

b) Adroddiadau’r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.

Y Cyng Elaine Evans Ward Teifi

- Mae wyneb y ffordd y tu allan i Teifi Tyres oddi ar Station Road yn frith o dyllau ac yn beryglus, rwyf wedi rhoi gwybod i CSC;
- Mae'r problemau sy'n ymwneud â chasglu sbwriel wedi bod yn cynyddu yn ystod yr haf, ond fe'm hysbyswyd gan CSC bod staff newydd wedi'u recriwtio a lorïau newydd wedi'u prynu i leddfu'r problemau;

- **Rwyf wedi llwyddo i ddod o hyd i arwyddion ychwanegol yn rhybuddio am lifogydd llanw i'w defnyddio ym mynedfa Quay Street Car par.;**
- **Arwyddion newydd yn atgoffa'r cyhoedd i godi eu baw cŵn yng Ngerddi Victoria wedi eu gosod ar y ffens;**
- **Adroddais am rywfaint o dipio anghyfreithlon ym Mhwlhai yng nghanol y dref, roedd yn rhwystredig bod timau o'r Adran Briffyrdd ac Iechyd yr Amgylchedd yn mynychu'r safle ond yn gwrthod casglu'r eitemau oherwydd ffael cytuno a oedd yn dir cyhoeddus neu breifat – rdyw I yn gobeithio bod un o'r timau wedi ei cymryd I ffwrdd erbyn hyn;**

Cllr Elaine Evans Teifi Ward

- The surface of the road outside Teifi Tyres off Station Road is riddled with pot holes and dangerous, I have reported it to CCC;
- The issues around refuse collection have been increasing during the summer, but I have been informed by CCC that new staff have been recruited and new lorries have been purchased to alleviate the problems;
- I have managed to source extra signage warning of the tidal flooding for use in the Quay Street Car par entrance.;
- New signs reminding the public to pick up their dog mess in Victoria Gardens have been placed on the fence;
- I reported some fly tipping at Pwllhai in the middle of town, it was frustrating that teams from Highways and the Environmental Health attended the site but refused to collect the items due not agreeing if it was public or private land – hopefully one of the teams have removed it by now;

Y Cyng Siân Maehrlein Ward Mwldan

- **Rwyf wedi bod yn cwblhau cwrs Alzheimer ar-lein yr wyf yn ei fwynhau ac mae'n hynod ddiddorol;**
- **Mae wedi bod yn fis prysur i Bwyllgor y Carnifal, diolch i bawb a wirfoddolodd ac i bawb a fynychodd y digwyddiadau;**
- **Wedi mynychu dathliad 50 mlynedd Clwb Pêl-droed Maesglas, llongyfarchiadau i'r clwb, daeth nifer dda iawn i'r digwyddiad;**
- **Mae'r tyllau yn y ffordd a adroddais yng Nghnwc y Dintir wedi eu trwsio;**
- **Byddaf yn mynychu cyfarfod gyda Rheolwr Maes Mwldan i drafod cwynion gan drigolion sydd wedi'u dwyn i'm sylw;**
- **Wedi cynorthwyo preswylwyr gyda cheisiadau Bathodyn Glas, oherwydd dim ond ar-lein y gallwch eu cwblhau, sy'n anhygyrch i rai aelodau o'n cymuned;**
- **Erlid y CSC ynghylch pridd newydd ar fedd ar ran preswlydd pryderus;**

Cllr Siân Maehrlein Mwldan Ward

- I have been completing an online Alzheimer course which I am enjoying and it's extremely interesting;
- It has been a busy month for the Carnival Committee, thank you to everyone who volunteered and to all those who attended the events;
- Attended the 50 years Maesglas Football Club celebration, congratulations to the club, the event was very well attended;
- The pot holes that I reported in Cnwc y Dintir have been repaired;
- I will be attending a meeting with the Maes Mwldan Manager to discuss complaints from residents that have been brought to my attention;
- Assisted residents with Blue Badge applications, because you can only complete them on line, which is inaccessible to some members of our community;

- Chasing the CCC regarding new turf on a grave on behalf of a distressed resident;

c) **Adroddiad y Bachan Deche / Handyperson's Report.**

i) **Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed / King George 5th Children's Play Area**

Mae angen gwneud gwaith dros y gaeaf i lanhau a phaentio rhai o'r offer ac ailosod y matiau. Mae atgyweirio'r darn o offer hyfforddi sydd wedi torri yn dal i fod yn waith ar y gweill. Mae'r cyfathrebu ar gyfer torri'r porfa cyn gêm bêl-droed wedi gwella y tymor hwn, diolch i Bwyllgor Clwb Pêl-droed Aberteifi / Work needs to be carried out over the winter to clean and paint some of the equipment and to replace the mats. Repairing the broken piece of training equipment remains to be a work in progress. The communication for cutting the grass in preparation for a football game has improved this season, thank you to the Cardigan Football Club Committee.

ii) **Man chwarae amlbwrpas a chyrtau tenis/ Multi-purpose play area and Tennis Courts.**

Mae'r rhwydi tennis a'u pyst wedi'u tynnu, fe ddechreuodd contractwyr ar y gwaith ar y cwrt ddoe. Mae'r giât sy'n ymuno â'r cwrt tennis a'r ardal chwarae amlbwrpas wedi'i chloi / The tennis nets and their posts have been removed, contractors began the work on the court yesterday. The gate joining the tennis court and the multi-purpose play area has been padlocked.

iii) **Maes Sgrialu /Skateboard Park**

Mae darnau amrywiol o waith i'w cwblhau cyn y jam blynyddol yn ddiweddarach yn y mis. Mae pwyllgor y Parc Sgrialu yn awyddus i ehangu'r ardal hon, mae angen i ni brydlesu'r tir oddi wrth CSC er mwyn gallu cwblhau ceisiadau grant.

There are various pieces of work to be completed before the annual jam later in the month. The Skatepark committee are keen to expand this area, we need to lease the land from CCC to enable grant applications to be completed.

iv) **Maes Chwarae Pentop / Pentop Play Area.**

Mae'r sied a'r seddi newydd wedi'u gosod / The new shed and seating has been installed.

v) **Cyffredinol / General**

Oherwydd y gwyntoedd cryfion a'r tywydd gwael yn gyffredinol yr haf hwn, mae rhai o'r planwyr yn dechrau edrych yn blêr. Bydd y rhain yn cael eu tynnu pan fyddant yn dirywio i'r graddau nad ydynt yn addurno'r dref / Due to the strong winds and generally poor weather conditions this summer, some of the planters are beginning to look worse for wear. These will be removed as and when they deteriorate to a point that they are not decorating the town.

11. **Eitemau ar gyfer yr Agenda nesaf – nodwyd dim.**

Items for the next Agenda – none noted.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 9.15yh.

There being no further business to discuss, the meeting closed at 9.15pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date